Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL**

# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL ADNAU AMNEWID 2016 – 2031

## FFURFLEN YMATEB I'R NEWIDIADAU CANOLBWYNTIEDIG

Hoffem glywed eich barn am y Newidiadau Canolbwyntiedig arfaethedig i'r Cynllun Datblygu Lleol Adnau Amnewid (CDLl)a'r dogfennau diwygiedig sy'n eu cefnogi (er enghraifft yr Arfarniad o Gynaliadwyedd diwygiedig neu'r Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd). Dylid defnyddio'r ffurflen hon ar gyfer yr holl sylwadau (hynny yw sylwadau neu wrthwynebiadau). Caiff nodiadau canllaw ar gyfer cwblhau dros y dudalen. Mae fersiynau electronig o'r ffurflen hon ar gael o www.merthyr.gov.uk/ReplacementLDP. **Rhaid i'r sylwadau gael eu derbyn gan y Cyngor erbyn dydd Llun 4 Mawrth 2019.**

## RHAN 1: MANYLION CYSWLLT

| | Manylion Personol | Manylion yr Asiant (os yw'n gymwys) |
|---|---|---|
| Teitl | | |
| Enw cyntaf | | |
| Enw olaf | | |
| Teitl y Swydd (ble y bo'n berthnasol) | | |
| Sefydliad (ble y bo'n berthnasol) | | |
| Cyfeiriad:llinell 1 | | |
| Llinell 2 | | |
| Llinell 3 | | |
| Llinell 4 | | |
| Cod Post | | |
| Rhif Ffôn | | |
| Cyfeiriad e-bost | | |

Ticiwch os byddai'n well gennych dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg ☐
Mae'n well gennym ohebu drwy e-bost. Ticiwch os byddai'n well gennych gael y diweddaraf drwy'r post ☐

*Nodwch y bydd yr holl sylwadau ar gael i'r cyhoedd ac ni ellir eu trin fel rhai cyfrinachol. Caiff eich gwybodaeth ei chadw ar Gronfa Ddata CDLl y Cyngor a chaiff ei ddefnyddio mewn perthynas â pharatoi'r Cynllun Datblygu Lleol yn unig.*

**Rhif Cynrychiolydd ID* (os yw'n berthnasol)** ☐

*Bydd rhif Cynrychiolydd gennych os ydych wedi gwneud sylwadau ar adegau blaenorol yn y broses Cynllun Datblygu Lleol Adnau Amnewid neu os ydych wedi gofyn i gael eich cynnwys ar gronfa ddata CDLl y Cyngor. Caiff y Rhif Cynrychiolydd ei ddynodi ar ohebiaeth flaenorol oddi wrth y Cyngor. Dyfynnwch y rhif hwn os yw'n bosibl i gynorthwyo'r Cyngor i'ch adnabod a chofnodi eich sylwadau.

**DATGANIAD HYSBYSIAD PREIFATRWYDD**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ymroddedig i gynnal eich hawliau preifatrwydd. Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol at ddibenion cyfreithiol yn unig. Os hoffech ddarganfod rhagor am sut yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol darllenwch ein hysbysiadau preifatrwydd sydd ar gael ar ein gwefan (www.merthyr.gov.uk/council/data-protection-and-freedom-of-information/privacy-notices/). Os oes unrhyw bryderon gennych neu os hoffech wybod rhagor am gydymffurfio â diogelwch data cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data ar 01685 725329 neu data.protection@merthyr.gov.uk.

Nodiadau Canllaw:

- Cyflwynwch eich ymateb i Newidiadau Canolbwyntiedig y Cynllun Datblygu Lleol Adnau Amnewid a'r dogfennau sy'n cefnogi'r Newidiadau Canolbwyntiedig, ar y ffurflen hon.

- Os ydych yn gwrthwynebu i Newid Canolbwyntiedig dylech ddweud pam eich bod yn meddwl ei fod yn gwneud y Cynllun yn simsan, a sut y dylai Newid Canolbwyntiedig gael ei newid i wneud y Cynllun yn gadarn. Dylai cynrychiolwyr sy'n cynnig newidiadau i Newid Canolbwyntiedig ystyried y goblygiadau ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Pan fo gan y newidiadau arfaethedig effeithiau cynaliadwyedd sylweddol, dylai'r sylwadau gynnwys gwybodaeth berthnasol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

- Wrth wrthwynebu neu gynnig newid i Newid Canolbwyntiedig. Byddai'n ddefnyddiol i wneud yn glir pa brawf/brofion o gadernid sy'n methu yn eich barn chi. Os na fyddwch yn dynodi prawf, ni fydd hyn yn golygu na fydd eich sylwadau yn cael eu hystyried, ar yr amod ei fod yn berthnasol i'r Newidiadau Canolbwyntiedig. Cyn cwblhau'r ffurflen, cyfeiriwch at y nodiadau canllaw profion cadernid yn yr Atodlen ynghlwm ar ddiwedd y ffurflen hon. Cafodd rhestr o gwestiynau cefnogol eu darparu i helpu i ddynodi pa brofion cadernid allai fod y mwyaf perthnasol i'r sylwadau. Canllaw yn unig yw hwn ac nid o anghenraid i ateb yr holl gwestiynau ychwanegol ar yr amod fel y profion cadernid mwyaf perthnasol wedi eu dynodi.

- Byddai'n ddefnyddiol ond ddim yn hanfodol, pe byddai ffurflenni ar wahân yn cael eu cwblhau ar gyfer pob sylw yr ydych am ei wneud (e.e. am bob Newid Canolbwyntiedig). Neu gellir cwblhau Rhan 2 ar wahân am bob sylw, a'i atodi'n ddiogel at y brif ffurflen.

- Wrth wneud sylwadau, defnyddiwch daflenni ychwanegol yn ôl y gofyn, gan rifo pob taflen ychwanegol.
- Nodwch y bydd yr holl sylwadau ar gael i'r cyhoedd eu gweld.

- Wrth fynegi eich sylw, a wnewch chi gynnwys yr holl wybodaeth a thystiolaeth gefnogol angenrheidiol i gefnogi eich sylw. Dom ond os yw'r Archwiliwr penodedig yn eich gwahodd i fynd i'r afael â materion y gallai ef neu hi eu codi y byddwch yn gallu cyflwyno gwybodaeth bellach i'r archwiliad.

- Pan fo grŵp yn rhannu'r un safbwynt am sut y mae am i'r Cynllun gael ei newid, byddai'n ddefnyddiol i'r grŵp hwnnw anfon ffurflen sengl â'i sylwadau, yn hytrach na bod nifer fawr o unigolion yn anfon ar ffurflenni ar wahân yn ailadrodd yr un pwynt. Mewn achosion o'r fath, dylai'r grŵp ddynodi faint o bobl y mae'n eu cynrychioli a sut y cafodd y ddeiseb ei hawdurdodi. Dylai cynrychiolydd y grŵp (neu'r prif ddeisebydd) gael ei ddynodi'n glir.

- Gellir cael ffurflenni ychwanegol ar gyfer sylwadau oddi wrth y Tîm CDLl ar 01685 726277, 726279, 726220 neu 727053, neu lawrlwytho o wefan y Cyngor ar www.merthyr.gov.uk/ReplacementLDP neu gallwch lungopïo'r ffurflen hon.

- Os oes unrhyw gwestiynau gennych am ymateb, mae croeso i chi gysylltu â'r Adran Cynllunio a Chefn Gwlad, a gofyn i siarad ag aelod o'r Tîm CDLl ar y rhifau ffôn uchod neu e-bostio devplanning@merthyr.gov.uk.

**RHAN 2: Eich sylwadau ar y Newidiadau Canolbwyntiedig** (Defnyddiwch un adran Rhan 2 am bob sylw yr ydych am ei wneud)

| **2a. Cyn manylu ar eich sylwadau, byddai'n ddefnyddiol gwybod a ydych o'r farn o ganlyniad i'r Newidiadau Canolbwyntiedig arfaethedig gan y Cyngor, fod y Cynllun yn gadarn ac yn diwallu'r gofynion gweithdrefnol. Os ydych o'r farn fod y Cynllun yn simsan, pa brawf cadernid ydy e'n ei fethu yn eich barn chi? (Ticiwch)** *Ceir manylion pellach am y profion cadernid yn yr Atodiad ar ddiwedd y ffurflen hon.* | | |
|---|---|---|
| **Prawf 1** ☐ | **Prawf 2** ☐ | **Prawf 3** ☐ |

| **2b. Pa Newid Canolbwyntiedig ydych chi'n ei gefnogi neu yn ei wrthwynebu? (Defnyddiwch Ran 2 ar wahân ar gyfer pob Newid Canolbwyntiedig â sylwadau arno)** | | | |
|---|---|---|---|
| **Newid Canolbwyntiedig (NC) Rhif cyfeirnod:** | **Cefnogi** | **Gwrthwynebu** | **Sylw** |
| | ☐ | ☐ | ☐ |

| **2c. Nodwch eich sylwadau yn y gwagle isod, defnyddiwch fwy o dudalennau os yw'n angenrheidiol, dynodwch yn glir i ba Newidiadau Canolbwyntiedig y mae eich sylwadau yn berthnasol iddynt.** Os ydych yn ystyried na fydd y Newidiadau Canolbwyntiedig arfaethedig yn gwneud y Cynllun yn gadarn, esboniwch eich rhesymau pam yn glir a pha newidiadau pellach sy'n ofynnol. Os ydych yn cynnig newid i'r Newid Canolbwyntiedig dylech ystyried yr oblygiadau ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac a fyddai unrhyw newidiadau yn ofynnol i'r asesiad. Dynodwch yn y gwagle isod a ydych yn cyflwyno deunydd ychwanegol i gefnogi eich sylwadau. |
|---|
| |

## Rhan 3: Beth sy'n digwydd nesaf?

| |
|---|
| Yn ystod y cam hwn, dim ond sylwadau ysgrifenedig gallwch eu gwneud (sef 'sylwadau ysgrifenedig'). Fodd bynnag, gall unrhyw un sydd am newid y Cynllun ymddangos o flaen a siarad â'r Archwiliwr mewn 'sesiwn gwrandawiad' yn ystod yr Archwiliad Cyhoeddus (a gynhelir ar ddyddiad diweddarach). Dylech gadw mewn cof y caiff eich sylwadau ysgrifenedig ar y ffurflen hon yr un sylw gan yr Archwiliwr â'r rheini a gaiff eu cyflwyno ar lafar mewn sesiwn gwrandawiad. Nodwch hefyd y bydd yr Archwiliwr yn dynodi'r weithdrefn fwyaf priodol ar gyfer sicrhau bod y rheini sydd am gyflwyno tystiolaeth ar lafar yn gallu gwneud hynny. |

| **3a. Ydych chi am i'ch sylwadau gael eu hystyried yn 'sylwadau ysgrifenedig' neu ydych chi am siarad mewn sesiwn gwrandawiad o'r Archwiliad Cyhoeddus?** (Ticiwch) | |
|---|---|
| **Nid wyf am siarad mewn gwrandawiad cyhoeddus ac rwyf yn hapus i'm sylwadau ysgrifenedig gael eu hystyried gan yr Archwiliwr.** | ☐ |
| **Rwyf am siarad mewn gwrandawiad cyhoeddus.** | ☐ |

| **3b. Os ydych am gyfranogi mewn gwrandawiad dynodwch isod yr hyn ydych am siarad amdano yn y gwrandawiad cyhoeddus** (e.e. Newid Canolbwyntiedig X mewn perthynas â 'Tai' neu 'Trafnidiaeth'). |
|---|
| |

| **3c. Os yw'r sylw hwn yn cynrychioli deiseb, dynodwch faint o bobl y mae'n eu cynrychioli:** | |
|---|---|

| **3d. Os cafodd dogfennau ychwanegol eu darparu i gefnogi eich sylwadau, rhestrwch hwy isod:** |
|---|
| |

Ar ôl i chi gwblhau, arwyddwch a dyddio'r ffurflen sylwadau:

| **Arwyddwyd:** | | **Dyddiad:** | |
|---|---|---|---|

**Diolch am eich sylwadau am Newidiadau Canolbwyntiedig y Cynllun Datblygu Lleol Adnau Amnewid.**

**Cofiwch amgáu unrhyw ddogfennaeth berthnasol gyda'r ffurflen hon ac atodi unrhyw dudalennau ychwanegol yn ddiogel.**

**Dylid anfon ffurflenni wedi eu cwblhau i:**

**Tîm CDLl**
**Cynllunio a Chefn Gwlad**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**
**Uned 5**
**Parc Busnes Triongl**
**Pentrebach**
**Merthyr Tudful**
**CF48 4TQ**

**Neu e-bost i: devplanning@merthyr.gov.uk**

**Rhaid derbyn sylwadau erbyn canol nos dydd Llun 4 Mawrth 2019.**

**Ni chaiff sylwadau a dderbynnir ar ôl hynny eu hystyried.**

## A – Profion Cadernid

Caiff Cynllun Datblygu Lleol Adnau Amnewid Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful 2016-2031 ei archwilio gan Archwiliwr annibynnol a benodir gan Lywodraeth Cymru. Swydd yr Archwiliwr yw ystyried a yw'r cynllun yn bodloni gofynion gweithdrefnol ac a yw'n gadarn.

Yn y cyd-destun hwn, gellir ystyried 'cadarn' o fewn ei ystyr arferol sef 'dangos barn dda' a 'gallu ymddiried ynddo'. Caiff y cwestiynau neu 'brofion' y bydd yr Archwiliwr yn eu hystyried wrth bennu a yw'r Cynllun yn gadarn yn cael eu hesbonio yn y tabl isod. Caiff mwy o wybodaeth am brofion a gofynion gweithdrefnol ei darparu yng Nghanllawiau Gweithdrefnau Archwiliadau Cynllun Datblygu Lleol yr Arolygaeth Gynllunio (2015).

Os ydych yn gwrthwynebu, dylech ddweud pam eich bod yn credu bod y Cynllun yn simsan a sut y dylai'r Cynllun gael ei newid i'w wneud yn gadarn. Wrth gynnig newid i'r Cynllun byddai'n ddefnyddiol ei wneud yn glir pa brawf/brofion cadernid y credwch y mae'r Cynllun yn eu methu a pham. Bydd hyn yn helpu'r Awdurdod a'r Archwiliwr i ddeall y problemau a godwch. Os yw eich sylw yn berthnasol i'r ffordd y cafodd y Cynllun ei baratoi neu ymgynghori arno, y mae'n debygol y bydd eich sylwadau'n berthnasol i'r 'gofynion gweithdrefnol'.

Wrth fethu â dynodi prawf, ni fydd hyn yn golygu na chaiff eich sylwadau eu hystyried, ar yr amod ei fod yn berthnasol i'r Cynllun neu ei ddogfennau cefnogol. Dylech gynnwys eich holl sylwadau ar y ffurflen, gan ddefnyddio'r dogfennau cysylltiedig a thystiolaeth gefnogol ble y bo'n angenrheidiol.

| **Profion Cyfanrwydd** | |
|---|---|
| Prawf 1 | **Ydy'r Cynllun yn ffitio?**<br>• Ydy'r Cynllun yn talu sylw i bolisi cenedlaethol?<br>• Ydy'r Cynllun yn talu sylw i Nodau Llesiant?<br>• Ydy'r Cynllun yn gyson â chynlluniau lleol, strategaethau a rhaglenni gwasanaeth?<br>• Ydy'r Cynllun yn cydymffurfio ag awdurdodau cymdogol?<br>• Ydy'r Cynllun yn cydymffurfio â strategaethau a blaenoriaethau eraill y Cyngor? |
| Prawf 2 | **Ydy'r Cynllun yn briodol?**<br>• A yw'n briodol i'r ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?<br>• A yw'r benodol leol?<br>• A yw'n mynd i'r afael â phroblemau allweddol?<br>• A gefnogir ef gan dystiolaeth gadarn, gymesur a chredadwy?<br>• All y seiliau resymegol y tu ôl i'r polisïau gael eu harddangos?<br>• A yw'n ceisio diwallu anghenion aseswyd a chyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy?<br>• A yw'r weledigaeth a'r strategaeth yn gadarnhaol ac yn ddigon uchelgeisiol?<br>• A gafodd y dewisiadau amgen 'go iawn' eu hystyried yn drylwyr?<br>• A yw'n ddilys, rhesymol a chytbwys?<br>• A yw'n gydlynol a chyson?<br>• A yw'n glir a chanolbwyntiedig? |
| Prawf 3 | **A fydd y Cynllun yn darparu?**<br>• A yw'n debygol o fod yn effeithiol?<br>• A ellir ei weithredu?<br>• A oes cefnogaeth oddi wrth y darparwyr seilwaith perthnasol yn ariannol ac o ran bodloni graddfeydd amser perthnasol?<br>• A fydd y datblygiad yn ddichonadwy?<br>• A ellir cyflenwi'r safleoedd a ddynodwyd?<br>• Ydy'r Cynllun yn ddigon hyblyg?<br>• A oes darpariaethau priodol o ran cynllun wrth gefn?<br>• A yw'n cael ei fonitro'n effeithiol? |